CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND




# Tîm Llais Ieuenctid Cymru

Disgrifiad o'r Rôl

## Beth yw Tîm Llais Ieuenctid Cymru?

Yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, rydym yn parhau i fod â chynlluniau mawr i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn ein holl waith, p'un ai trwy'r grantiau a wnawn, y bobl rydyn ni'n dylanwadu arnyn nhw neu'r pethau rydyn ni'n eu dysgu.

I wneud hyn, mae angen tîm angerddol o bobl ifanc arnom i weithio'n agos gyda'n Pennaeth Llais Ieuenctid ac mewn partneriaeth â ni trwy gydol 2022.

### Ynglŷn â'n hymagwedd

Credwn yn gryf, pan fydd pobl yn arwain, bod cymunedau'n ffynnu. Mae grantiau'r Loteri Genedlaethol yn agored i bawb. Fel ariannwr cymunedol mwyaf y DU, mae'n fraint ein bod yn gallu gweithio gyda'r grwpiau lleiaf ar lawr gwlad hyd at elusennau mawr ledled y DU.

Darllenwch fwy amdanom ni, sut rydyn ni'n gweithio a'r bobl a'r prosiectau rydyn ni'n eu hariannu.

### Effaith Tîm Llais Ieuenctid Cymru yn hyn

Yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, cafodd Tîm Llais Ieuenctid Cymru effaith enfawr yn 2020 a 2021. Fe weithion nhw i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn ein holl waith.

Dyma gipolwg ar yr hyn a gyflawnwyd ganddynt:

Mae Tîm Llais Ieuenctid Lloegr wedi cyflwyno mewn dros 15 o ddigwyddiadau ieuenctid ac ariannu cenedlaethol, gan gyrraedd cyfanswm o 2,000 o fudd-ddeiliaid allanol. Maen nhw wedi creu pecynnau cymorth i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff am raglenni ieuenctid o ansawdd da,

wedi helpu gyda blaenoriaethau ôl COVID-19 a phwysigrwydd llais ieuenctid mewn mudiadau, tra hefyd yn meddu ar swyddi dylanwadol yn adrannau Llywodraeth y DU ac ar ein Pwyllgorau Bwrdd a Gwlad.

Mae Tîm Llais Ieuenctid Cymru wedi cynllunio a darparu ymchwil i ddeall beth sydd bwysicaf i bobl ifanc yng Nghymru. Defnyddiwyd canfyddiadau'r ymchwil i gyd-ddylunio rhaglen grant gwerth £10 miliwn, a fydd yn galluogi pobl ifanc i arwain, er mwyn iddynt allu dychmygu a chreu dyfodol mwy gwydn ac iach yn feddyliol i bobl ifanc yng Nghymru. Bydd y panel cynghori Tîm Llais Ieuenctid Cymru yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y grantiau hyn yn 2022.

Mae gan bob aelod o Tîm Llais Ieuenctid Cymru gyfle i ddilyn eu diddordebau a'u prosiectau angerdd gan ddefnyddio eu profiadau o lygad y ffynnon, wrth dderbyn hyfforddiant a chefnogaeth wedi'u teilwra i'w nodau ar gyfer y dyfodol.

### Dyma beth sydd gan aelodau'r timau i'w ddweud



"Diolch i chi am roi cyfle i mi rannu fy mhrofiad fel rhan o'r tîm - enghraifft wych o rymuso llais ieuenctid."

Ruhina




"Diolch am yr holl gyfleoedd rydych chi wedi'u rhoi i ni - gyda phob un rydw i'n agosáu at fy nod."

Kianna

# Am beth rydyn ni'n chwilio

**Sgiliau allweddol**

- Gallu i weithio mewn tîm
- Gwneud penderfyniadau
- Cyfathrebu da
- Gwybodaeth am anghenion eich cymuned

**Profiad dymunol**

- Bod yn fodel rôl
- Rheoli prosiect
- Cyfranogi yn eich cymuned leol
- Cynrychioli barn pobl eraill

**Ymrwymiadau allweddol**

- Tua wyth awr y mis
- Ymagwedd hyblyg at deithio ar draws rhanbarthau
- Mynychu cyfnod ymsefydlu a chwrs preswyl

**Prif gyfrifoldebau**

- Bod yn llais pobl ifanc yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Gweithio gyda'r Tîm Llais Ieuenctid Cymru i ddylunio cyfleoedd ariannu yn y dyfodol ar gyfer sefydliadau ieuenctid a phobl ifanc
- Bod yn benderfynwr mewn prosesau ariannu
- Sicrhau ansawdd ein hariannu i bobl ifanc trwy ymweld â phrosiectau a sefydliadau partner

**Buddion i chi**

- Hyfforddiant a chefnogaeth wedi'u teilwra i chi
- Gwella'ch sgiliau a'ch profiad ym maes rheoli pobl, arweinyddiaeth, gwneud penderfyniadau a chynllunio prosiectau
- Ennill hyfforddiant mewn siarad cyhoeddus, dylanwadu ac adeiladu tîm
- Amser â thâl, telir am yr holl deithio a threuliau
- Cyfle i fod yn rhan o newid i bobl ifanc
- Cwrdd â phobl ifanc ysbrydoledig eraill fel chi

**Dyddiadau allweddol**

- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau - Rhagfyr 5ed 2022
- Dyddiad ac amser y diwrnod dethol - Rhagfyr 2022 yn dibynnu ar y lleoliad a'ch argaeledd
- Bydd angen i chi allu ymrwymo i'r rôl tan fis Rhagfyr 2023 a mynychu cyfarfodydd misol (dyddiadau i'w cadarnhau)

Mewn uchafswm o 400 gair, neu mewn ffilm, atebwch y cwestiynau canlynol a'u hanfon at: YPIL@tnlcommunityfund.org.uk

- Pa fater yn y gymdeithas ydych chi fwyaf angerddol amdano a pham?
- Pa sgiliau, profiad a gwybodaeth sydd gennych chi sydd fwyaf perthnasol i fod yn Tîm Llais Ieuenctid Cymru yn eich barn chi?
- Dywedwch wrthym am brosiect cymunedol yr hoffech ei greu [neu rydych eisoes yn rhan ohono] a fydd yn cael newid cadarnhaol ar eich cymuned/cymdeithas ehangach?

**Pob lwc!**